




Coeden  
Ddarllen  
Rhydychen

# Achubwch Mwlsyn!



Roderick Hunt  
Alex Brychta





Roedd yr antur hud ddiweddaraf wedi mynd o chwith.  
Roedden nhw wedi gadael Mwlsyn ar ôl. Roedd aderyn  
enfawr wedi hedfan i ffwrdd gydag ef. Roedd hyn am fod  
ysbryd drwg wedi dianc o botel.

“Ac arnaf fi roedd y bai i gyd,” meddai Cad.






“Mae’n rhaid inni achub Mwlsyn,” meddai Dids.  
“Mae’n rhaid inni fynd yn ôl i’r antur.”

“Ond fedrwn ni ddim gwneud i’r allwedd ddisgleirio,” meddai Cad.

“Wn i,” meddai Dids, “ond rhaid rhoi tro arni. Rhaid cael hyd i ffordd o roi’r ysbryd drwg yn ôl yn y botel.”

Edrychodd Cad a Dids ar yr allwedd hud.  
“O, petai ond yn disgleirio,” meddai Cad.  
Yna dechreuodd yr allwedd hud ddisgleirio. Aeth yr hud â’r plant yn ôl i’r antur ddiweddaraf.






Aeth yr hud â nhw i ynys. Roedd Cad wedi bod yno o'r blaen. Hon oedd yr ynys lle roedd yr aderyn enfawr wedi hedfan i ffwrdd gyda Mwlsyn. Roedd Kamar yn dal i fod yno. Roedd gyda'i dad, Hassan.

Roedd Hassan a Kamar yn trwsio eu cwch. Rhedodd Kamar i gwrdd â nhw.

“Rydych chi wedi dod 'nôl!” meddai wrth Cad. “Ble fuoch chi?”

“Basech chi ddim yn ein credu,” meddai Cad, “hyd yn oed petaem ni yn dweud wrthych chi.”





“Dyma fy mrawd, Dids,” meddai Cad. “Rydyn ni wedi dod yn ôl i achub Mwlsyn.”

Siglodd Hassan ei ben.

“Bydd hynny yn beryglus iawn,” meddai. “Aeth yr aderyn enfawr ag ef i ben y mynydd yna.”




“Wn i,” meddai Cad, “a dyna ble rydych chi’n mynd. Rhaid inni fynd i fyny yno mor gyflym ag y medrwn ni.”


“Stopiwch!” gwaeddodd Kamar. “Peidiwch â mynd! Ydych chi wedi anghofio am yr ysbryd drwg?”

“Fe boenwn ni amdano fe yn nes ymlaen,” meddai Dids.






Aeth Cad a Dids mor gyflym ag y medrent, ond roedd yn waith caled. Roedd yn rhaid iddynt ddringo dros greigiau mawr. O'r diwedd cyrhaeddodd nhw'r mynydd. Roedd Cad wedi blino. Eisteddodd ar graig i orffwys.



Edrychai'r mynydd yn serth ac yn greigiog.  
"Sut medrwn ni ddringo i fyny?" gofynnodd Cad.  
Yna daeth Dids o hyd i nant oedd wedi sychu.  
"Dere," galwodd Dids. "Mae'r gwli hwn yn edrych fel ffordd hawdd i fyny."





Dechreuodd Cad a Dids ddringo i fyny'r gwli. Yn sydyn roedd yna sŵn uchel ac arogl ffaidd. Yr ysbryd drwg oedd yno. Roedd yn sefyll ar ben y gwli.

“Ha! Fydda i fawr o dro yn cael gwared arnoch chi,” gwaeddodd.



Clapiodd yr ysbryd drwg ei ddwylo. Dechreuodd dŵr lifo'n gyflym i lawr y gwli. Doedd dim amser gan Dids a Cad i ddringo allan. Rhuthrodd y dŵr tuag atyn nhw.

“Brysia, Cad! Dringa ar y graig hon a dal yn dynn,” gwaeddodd Dids.





Gafaelodd Cad a Dids yn y graig. Rhuodd y dŵr heibio iddyn nhw. Roedd ofn ar Cad a Dids.

“Beth wnawn ni?” gwaeddodd Cad.

“Wn i ddim,” galwodd Dids. “Mae’n rhy bell i neidio i ddiogelwch.”



Yna gwelwn nhw Kamar. Roedd wedi eu dilyn i’r mynydd.

“Daliwch yn dynn!” gwaeddodd. “Byddwch yn ddiogel mewn dim o beth.”

Taflodd raff ar draws y gwli. Daliodd ar gangen ar yr ochr arall.





Dringodd Cad a Dids i ddiogelwch ar y rhaff.

“Rydyn ni mor falch o’ch gweld chi!” meddai Cad.  
“Rown i’n meddwl na fydden ni byth yn dod oddi ar y graig yna.”

“Yr ysbryd drwg wnaeth hyn,” meddai Dids.

“Mae’n beth da fy mod wedi dod pan y gwnes i,” meddai Kamar. “Fe ddes i i’ch helpu chi i achub Mwlsyn.”



Dechreuon nhw ddringo’r mynydd eto. Roedd Cad a Dids yn falch fod Kamar wedi dod i’w helpu. Roedd yr aderyn enfawr yn hedfan yn uchel uwch eu pennau.

“Beth ydych chi wedi ei wneud â Mwlsyn?”  
bloeddiodd Cad yn flin.





Cymerodd amser hir iddyn nhw gyrraedd copa'r mynydd. O'r diwedd cyrhaeddon nhw nyth yr aderyn enfawr.


"Ych!" meddai Dids. "Edrychwch ar yr esgyrn yna i gyd. Gobeithio nad yw'r aderyn wedi bwyta Mwlsyn!"

"Mwlsyn," galwodd Cad, "ble rwyt ti?"

Yna gwelon nhw Mwlsyn. Roedd yn cysgu'n drwm ac roedd golwg fodlon ar ei wyneb. O'i flaen roedd pentwr o esgyrn.


"O Mwlsyn!" meddai Cad. "Deffra!"  
Deffrodd Mwlsyn a siglo ei gwt.





“Rhaid inni fynd yn ôl yn gyflym,” meddai Kamar.  
“Efallai bydd yr ysbryd drwg yn defnyddio ei rymoedd  
eto.”

“Rwy’n falch ein bod yn mynd,” meddylodd Mwlsyn,  
“ond rwy’n flin na allaf fynd â’r esgyrn hyfryd *i gyd*.”  
Aethon nhw i lawr y mynydd mor gyflym ag y medrent.




Yna gwelon nhw Hassan. Roedd wedi dod i chwilio  
amdanynt.

“Rwy mor falch fy mod wedi dod o hyd i chi,”  
meddai. “Rwy wedi bod yn gofidio amdanoch chi.”

“Rydyn ni i gyd yn ddiogel,” meddai Kamar, “ac  
rydyn ni wedi achub Mwlsyn.”





Roedd Hassan yn poeni. Edrychodd ar Kamar.

“Gall yr ysbryd drwg ddefnyddio ei rymoedd eto.

Rhaid inni ddianc o’r ynys mor gyflym ag y medrwn ni,”  
meddai.

Dechreuon nhw lwytho pethau yn y cwch.

Edrychodd Dids ar yr hen gist ar y traeth. Roedd  
wedi ei chludo yno mewn storm.

“Wn i ddim beth sydd ynnddi,” meddai Hassan.  
“Efallai mai trysor yw e.”

“Pam nad agorwch chi hi?” gofynnodd Dids.

“Does gen i ddim allwedd,” meddai Hassan.





Cafodd Dids syniad.


“Rho fenthyg yr allwedd hud imi, Cad,” meddai. Rhoddodd yr allwedd hud yn y clo a throi. Neidiodd clawr y gist ar agor. Edrychodd pawb i mewn i'r gist, ond roedd yn hollol wag.



Yn sydyn roedd sŵn clecian a gwynt ffaidd hen hosanau wedi llosgi. Ymddangosodd yr ysbryd drwg!

“Ha!” gwaeddodd. “Rydych wedi dianc rhag fy ngrymoedd yn rhy aml. Nawr rwyf am ddelio gyda chi unwaith ac am byth.”





Meddylodd Dids am ffordd i dwyllo'r ysbryd drwg.  
Caeodd glawr y gist yn gyflym.

“Pam wnaethoch chi gau'r gist yna?” gofynnodd yr  
ysbryd drwg. “Beth sydd ynddi hi?”

“Y... rhywbeth gwerthfawr iawn,” meddai Dids.

“Ai trysor yw e?” gofynnodd yr ysbryd drwg.

“Mae'n fwy gwerthfawr o lawer na thrysor,” meddai  
Dids.

Edrychodd yr ysbryd drwg yn y gist.

“Does dim byd gwerthfawr fan hyn,” gwaeddodd.

“O, ond mae yna,” meddai Dids. “Dydych chi ddim yn  
edrych yn ddigon caled.”

Plygodd yr ysbryd drwg i mewn i'r gist i edrych.





Yn sydyn gwthiodd Dids yr ysbyrd drwg yn y gist a tharo'r clawr arno. Yna trodd y clo gyda'r allwedd hud.

“Sut y meiddiwch chi!” gwaeddodd yr ysbyrd drwg.  
“Cewch dalu am hyn pan ddof fi allan.”

“Ond fedrwch chi ddim dod allan,” galwodd Dids.



“O, medraf,” gwaeddodd yr ysbyrd drwg. “Fedraf fi ddim dod allan o boteli, ond mae'n hawdd dod allan o gist.”

“Ond rydych chi wedi eich cloi i mewn,” meddai Dids.  
“Dydyn ni ddim yn credu y medrwch chi ddod allan.”

“Fe ddefnyddiaf fy ngrymoedd,” meddai'r ysbyrd drwg.





Gwnaeth yr ysbryd drwg ei hun yn denau a dechreuodd lithro trwy dwll y clo. Daliodd Dids y botel dros dwll y clo. A llithrodd yr ysbryd drwg i mewn iddi.

“Cafodd ei dwyllo gan fy nhric,” meddai Dids.  
“Rown i’n meddwl y câi.”



Siglodd Hassan a Kamar law Dids.

“Roedd hynny’n wych, Dids!” meddai Kamar. “Mae’r ysbryd drwg yn ddiogel yn y botel. Nawr gall pawb fynd adref.”

“Rwy’n falch fod popeth yn iawn yn y diwedd,” meddai Cad. “Ac rwy’n falch fod Mwlsyn yn ddiogel.”





Dechreuodd yr allwedd hud ddisgleirio. Roedd yn amser mynd.

“Mentraf fi fod Mwlsyn wedi casáu’r antur hon,” meddai Dids.

Edrychodd Mwlsyn ar y ddau ohonynt.

“Wn i ddim,” meddyliodd. “Rwy wedi eithaf mwynhau, wir.”



Aeth yr hud â nhw adref. Rhedodd Onw i mewn i ystafell Cad.

“Hwrê! Rydych chi wedi achub Mwlsyn!” meddai. “Beth ddigwyddodd i’r ysbryd drwg?”

“Rhoddon ni ef yn ôl yn y botel,” meddai Dids.





Edrychodd y plant ar y gist fach.

“Rwy’n falch na ddaeth y botel yn ôl o’r antur,”  
meddai Onw.

Ceisiodd Cad godi clawr y gist, ond nid oedd yn agor.

“A nawr dyw’r allwedd ddim yn ffitio,” chwarddodd.





# Achubwch Mwlsyn!



Caiff Mwlsyn ei adael ar ôl mewn antur hud. Sut gall Cad a Dids fynd yn ôl, ac a fedran nhw ei achub rhag yr Ysbryd Drwg?



Cam 8 Rhagor o Storiâu A  
Trefn ddarllen a argymhellir:

Arian Poced  
Yr Ysbryd Drwg  
Achubwch Mwlsyn!

Sut Le Oedd Yno?  
Llifogydd!  
Antur yn yr Aiff

Addasiad Cymraeg gan  
Juli Paschalis

